**EUR 02-03(p2)**

**Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **6 Mawrth 2003 30 January 2003** |
| **Amser:** | **14.00** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3 & 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl:** | **Cronfeydd Strwythurol ôl-2006 yr UE: Ail Adroddiad Cynnydd y Comisiwn Ewropeaidd ar Gydlyniant Economaidd a ChymdeithasolEuropean Commission's Legislative and Work Programme for 2003, analysis of implications for the Welsh Assembly Government** |

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am adroddiad diweddaraf y Comisiwn ar sefyllfa'r ddadl ar ddyfodol y cronfeydd strwythurol. Mae'n rhoi'r ystadegau diweddaraf ar gyfer rhanbarthau presennol Amcan 1, gan gynnwys Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC).

   **Crynodeb**

2. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 30 Ionawr ac mae'r Comisiwn wedi cytuno i roi adroddiad yn gyson ar y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg yng nghyd-destun dyfodol y cronfeydd strwythurol ar ôl 2006. Dyma'r ail adroddiad interim. Gan ddefnyddio data 2000, mae'r adroddiad yn dangos bod GDP yr ardaloedd GGC yn cyfrif am 78% o gynnyrch yr UE ar gyfartaledd mewn 25 o'r aelod-wladwriaethau, ac felly nid yw'n gymwys i gael arian Amcan 1 dan y meini prawf presennol, sef 75% o'r cynnyrch ar gyfartaledd. Serch hynny, ni fyddant yn penderfynu pwy fydd yn gymwys tan 2006, a bydd y penderfyniad yn seiliedig ar GDP y pen ar gyfartaledd am y blynyddoedd 2001-03. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyfraniad y Comisiwn ac eraill i'r ddadl gyffredinol ar yr agenda cronfeydd strwythurol ôl-2006. Mae copi o'r crynodeb gweithredol yn Atodiad A, a chopi o'r tablau ystadegol yn Atodiad B.

   **Cyflwyniad**

3. Cyhoeddwyd yr adroddiad cynnydd cyntaf 12 mis yn union cyn yr ail adroddiad, ac mae'r ddwy ddogfen yn "pontio'r" Ail a'r Trydydd Adroddiad ar Gydlyniant. Yr Ail Adroddiad ar Gydlyniant wnaeth sbarduno'r ddadl ar ddyfodol y cronfeydd, tra bydd y Trydydd, a gyhoeddir yn yr hydref eleni, yn cynnwys cynigion y Comisiwn ar gyfer y dyfodol. Y Trydydd Adroddiad fydd yn llunio sail i waith negodi mwy ffurfiol ar gyfer y sefyllfa ôl-2006.
4. Yn y cyfamser, ceisia'r adroddiad hwn roi crynodeb o sefyllfa bresennol y ddadl, gan

gynnwys hanes y gwaith a wnaed gan y Comisiwn ac ar ei ran, a chyflwyniadau gan aelod-wladwriaethau ac eraill.

5. Mae gohebiaeth y Comisiwn wedi cydredeg â chyfres o ddigwyddiadau ym Mrwsel, yn ogystal â seminarau a digwyddiadau gan yr aelod wladwriaethau a rhanbarthau eu hunain (er enghraifft seminar Llywodraeth y Cynulliad ym mis Hydref y llynedd). Cynhaliodd y Comisiwn dri phrif ddigwyddiad ym mis Mai a Medi 2002 ac ar 3-4 Mawrth eleni.3 Roedd y rhain yn ymdrin â dyfodol a chyfeiriad polisi rhanbarthol yn y dyfodol; materion adnoddau dynol a symleiddio'r cronfeydd. Cynhaliwyd digwyddiadau atodol ar themâu fel ardaloedd mynyddig, ardaloedd dinesig ac ati.

**Amcan Un**

6. Mae'r Adroddiad Cynnydd yn dangos bod consensws cyffredinol y dylid parhau i gyfeirio'r rhan fwyaf o'r adnoddau i'r rhanbarthau llai datblygedig, gan gynnwys y rheini yn yr aelod-wladwriaethau newydd, ond heb eithrio'r rheini yn yr UE-15. Yn gyffredinol derbynnir y maen prawf sy'n defnyddio 75% o GDP yr UE ar gyfartaledd at ddibenion pennu Amcan Un.
7. Mae'r ffigurau a ddefnyddir yn yr adroddiad, sy'n defnyddio data 2000, yn cyfeirio at ranbarthau Amcan 1 yn y DU, a phe bai penderfyniad yn cael ei wneud yn awr ar UE sydd â 25 o aelod-wladwriaethau yn unig, yna dim ond Cernyw fyddai'n gymwys i gael arian Amcan Un oherwydd bod ganddo GDP y pen sy'n cyfrif am 71.6% o gyfartaledd yr UE. Byddai GDP y pen Cymru a 17 rhanbarth arall yn uwch na'r trothwy o 75%.
8. Ni fyddant yn penderfynu pwy sy'n gymwys i gael Amcan 1 tan 2006, a bydd hyn yn cael ei wneud ar sail GDP y pen ar gyfartaledd dros y blynyddoedd 2001-03.
9. Yn ystod y penodiadau cyhoeddus diweddaraf mae'r Comisiynydd Barnier wedi mynd mor bell ag awgrymu nid yn unig y dylai cyllid trosiannol fod ar gael i'r rhanbarthau sydd ar eu colled oherwydd effaith ystadegol ehangu, ond hefyd y gallai'r cyllid hwn fod yn uwch. Dywedodd y gallai'r cyllid bara am gyfnod hirach na'r cymorth ar gyfer rhanbarthau a fyddai wedi cael GDP yn uwch na 75% - hyd yn oed mewn UE â 15 o aelodau. Felly, gallai GCC elwa o ganlyniad i gymorth dros dro am gyfnod y tu hwnt i 2013.

**Amcan Dau a Thri**

10. Er bod y darlun y tu allan i Amcan Un yn ymddangos yn arafach ac yn llai eglur, mae'n debyg y derbynnir y bydd cymorth ar gael i ardaloedd y tu allan i Amcan Un, a bod y Comisiwn yn anelu at ledaenu'r cymorth dros ardal mor eang â phosibl. Mae'r syniad o gael polisi newydd sy'n symleiddio'r cyllid i mewn i un rhaglen wedi dod yn fwy poblogaidd. Gall y cronfeydd gael eu dyrannu ar sail blaenoriaethau thematig yn hytrach nac ardaloedd daearyddol.

**Rhaglenni rhyngwladol**

11. Mae'r Comisiwn yn parhau i wneud llawer o waith hyrwyddo o blaid defnyddio rhaglenni fel INTERREG III B a C. Maent o'r farn bod rhaglenni o'r fath yn cyflawni nod y Comisiwn o ran sicrhau bod cronfeydd strwythurol yn cyrraedd yr ardaloedd hynny nad yw'r polisïau

cenedlaethol yn gallu eu cyrraedd: mewn geiriau eraill, Gwerth Ychwanegol y Gymuned.

**Rheoli**

12. Aeth y ddadl ar reoli cronfeydd yn ei blaen yr wythnos hon gyda seminar y Comisiwn ar 3-4 Mawrth. Ymddengys bod pawb yn cytuno'r gyffredinol y dylai systemau rheoli'r rhaglenni fod yn addas ar gyfer yr arian sydd dan sylw - mae'n fiwrocratig i gredu bod yr un system yn addas i bawb.

**Adnoddau Ariannol**

13. Dywedodd Barnier ei fod ef o'r farn y dylid rhannu'r cyllid ar gyfer y rhanbarthau fel hyn: 2/3 ar gyfer Amcan Un a'r rhanbarthau sy'n cael cyllid trosiannol; 1/3 ar gyfer beth bynnag sy'n cymryd lle Amcan 2, 3 a'r Mentrau Cymunedol.
14. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi dweud, fel eraill, ei fod yn ystyried mai 0.45% o GDP yr UE ddylai fod y lleiafswm cyllid ôl-2006 sydd ar gael (sydd yn fwy na'r 0.41% a glustnodwyd ar gyfer 2006).

**Sefyllfa'r DU**

15. Gan nad oedd y rhan fwyaf o'r Aelod-Wladwriaethau presennol wedi datgan safbwynt, drafftiwyd yr Ail Adroddiad Cynnydd yn eu habsenoldeb. Mae hyn yn cynnwys Llywodraeth y DU - bydd eu hymgynghoriad ar ddyfodol y cronfeydd yn mynd rhagddo ychydig cyn gwaith paratoi'r Trydydd Adroddiad ar Gydlyniant. Pan ddrafftiwyd y papur hwn, nid oedd cynnwys ac amseriad ymgynghoriad y DU yn hysbys.

**Yr Amserlen**

16. Bydd y Trydydd Adroddiad ar Gydlyniant yn cael ei gyhoeddi adeg yr hydref eleni. Mae'r Comisiwn am weld deddfwriaeth newydd yr UE yn cael ei mabwysiadu cyn diwedd 2005 er mwyn treulio 2006 yn negodi rhaglenni newydd a sicrhau eu bod yn dechrau mewn pryd yn 2007.

**Cydymffurfio**

17. **Llywodraeth y DU, fel yr Aelod-Wladwriaeth, sydd yn arwain datblygiad a chydlyniad y polisi strwythurol a chydlyniant. Yr Adran Masnach a Diwydiant yw prif Adran Llywodraeth y DU o ran materion cydlynu; tra bo'r Concordat ar Gydlynu Materion Polisi yr Undeb Ewropeaidd yn nodi'r canlynol:**

B3.4 It is the Government’s intention that Ministers and officials of the devolved administrations should be fully involved in discussions within the UK Government about the

formulation of the UK’s policy position on all issues which touch on matters which fall within the responsibility of the devolved administrations."

18. Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, gweithrediaeth yr Alban a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd yn gyfrifol am reoli rhaglenni'r cronfeydd strwythurol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dirprwyo rheolaeth prif raglenni cronfeydd strwythurol Cymru i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r Cabinet yn derbyn cyngor ar faterion polisi strwythurol a chydlyniant gan yr Is-adran materion Ewropeaidd ac Allanol.

**Goblygiadau Ariannol**

19. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad yn codi o'r materion a drafodwyd yn yr adroddiad hwn.

**Cyswllt:** Cangen Materion Ewropeaidd ac Allanol 2, Pennaeth y Gangen: Jackie Brown (est 3157).